# Gyffin Diwydiannol

Stephen J Lockwood

Dyma grynodeb o'r cyflwyniad olaf o'r sgyrsiau a roddwyd yng Nghapel Peniel ar 17eg Chwefror 2022. Y teitl yw **Gyffin Diwydiannol gan Dr Stephen Lockwood**. Mae Dr Lockwood yn fiolegydd pysgodfeydd morol ac yn cyn pennaeth y labordai morol yng Nghonwy, a leolwyd ar safle presennol Parc Busnes Glan yr Afon. Mae Stephen felly yn gymwys iawn i roi sgwrs ar y pwnc.

Gellir maddau i rhywun sy'n cerdded o Sgwâr y Castell, Conwy, drwy Borth Sarn i Ffordd Llanrwst a thuag at Gyffin, am feddwl nad yw hon, ac na fu erioed, yn ardal ddiwydiannol. Efallai mai felly mae heddiw, ond ni fu fel hyn bob amser. Mae craith hen safle Garej Billington dal i'w weld heddiw wrth groesi Pont Penarth. Hefyd, gyferbyn a'r safle yn Ffordd Benarth, am 90 mlynedd tan y flwyddyn 2000, roedd tanciau puro cregyn gleision a Labordy Pysgodfeydd y llywodraeth (Parc Busnes Glan yr Afon bellach) yn cael eu disgrifio fel 'diwydiant ysgafn' at ddibenion cynllunio. Nid oedd y naill safle na'r llall yn wirioneddol unigryw gan y bu gweithgarwch diwydiannol cynharach yn y ddau leoliad.



Billington's garage before demolition in 2012



The Fisheries Laboratory, Benarth Road

Dechreuodd gweithgarwch 'diwydiant ysgafn' yma yn y canol oesoedd pan adeiladwyd melin lanw (tidal mill) ar yr Afon Gyffin, i fyny'r afon o Bont Penarth. Ni wyddys yn union bryd y codwyd y felin gyntaf ond cofnodir iddi gael ei hailadeiladu ym 1296 ar ôl iddi gael ei dinistrio yn ystod gwrthryfel Madog ap Llewelyn ym 1294.




Medieval Conwy showing the tidal mill at the mouth of the Afon Gyffin

I gael y felin i weithio’n effeithiol, bu’n rhaid i’r gorlif (flood tide) lifo i fyny’r afon tuag at Gyffin gyda chyn lleied o rwystrau â phosibl. Ar drai, caewyd yr afon, heblaw ffrwd y felin (mill race), er mwyn pweru olwyn ddŵr y felin. Bu'n rhaid storio cronfa fawr o ddŵr i sicrhau y gallai'r felin weithio drwy'r trai ac i ran gychwynnol y gorllanw. Roedd Afon Gyffin yn ddelfrydol i hyn am fod bron y cyfan o’r ardal yn draeth lleidiog a chors rynglanw.




Conwy Castle from Gyffin (J M W Turner 1802)

Mae’n debyg i’r felin ddod i ben erbyn ymweliad J M W Turner ar ddiwedd y 18fed ganrif. Mae melinau dŵr yn bynciau mor apelgar yn artistig fel y gellid disgwyl i Turner fod wedi cynnwys melin lanw Conwy yn ei waith, fel y gwnaeth efo’r felin ar Afon Alun yn yr Orsedd Goch (Rossett). Er bod un o’i baentiadau o ochr ddeheuol Castell Conwy yn dangos tŷ ar safle’r felin lanw, nid yw’n dangos olwyn ddŵr. Efallai mai diffyg manylder neu drwydded artistig oedd hyn ond mae ei lun o’r castell a baentiwyd ym 1802 yn cynnwys Pont Benarth. Yn arwyddocaol, mae’r olygfa agored trwy fwa’r bont yn golygu na allai pwll y felin gynharach gael ei gau mwyach ar lanw uchel, ac felly’n gwneud y felin llanw’n ddiwerth.


Telford’s Conwy suspension bridge


O fewn 50 mlynedd i ymweliadau Turner mae’n debyg i dŷ’r felin ei hun gael ei ddymchwel wrth i Stephenson yrru ei rheilffordd ar hyd glan gogleddol Afon Gyffin. Cyn hynny, fodd bynnag, adeiladodd Telford ei bont grog ar draws yr afon ym 1822-1826. Gellir tybio mai ar y blaendraeth a’r tir ger Pont Pensarn, sef y man agored addas agosaf, roedd Telford wedi storio ei ddeunydd adeiladu a gwneud cymaint o waith paratoi â phosibl.



Building & installing Stephenson's railway bridges across the Afon Conwy

Rydym yn gwybod mai ar flaendraeth Benarth yr adeiladodd Robert Stephenson twneli haearn gyr bocs-trawst ar gyfer ei bont rheilffordd (1846-1848). Roedd gan bob trac, dwy lein i fyny ac i lawr, ei phont annibynnol ei hun. Cawsant eu gosod gan ddefnyddio cyfres o ddarnau o focsys a atgyfnerthwyd â thiwbiau'n rhedeg hyd  bont. Yna, roedd pob pont yn arnofio oddi ar y lan ar bontynau ac yna eu jacio i'r uchder cywir i'w gosod ar y tyrau cynhaliol a'u halinio â thrac y rheilffordd. Mae saernïaeth y strwythur yn dyst rhyfeddol i beirianneg Fictoraidd gynnar sy'n dal i ddwyn pwysau trenau modern dros 170 mlynedd yn ddiweddarach.

Yr hyn sy'n llai arwyddocaol yw'r adeilad bach yn y pen eithaf ar ochr ddeheuol blaendraeth Benarth. Hwn oedd yr unig strwythur parhaol ar safle Stephenson ac efallai iddo gael ei godi gan Telford gan ei fod yn gartref i efail y gof ar yr adeg cafodd y bont ei hadeiladu. Mae'n dal i gael ei ddefnyddio heddiw, er fel annedd breifat.



P & H Lewis's timber yard, Benarth Road

Ar wahân i'r traffig rheilffordd gynyddol  a'r symudiad nwyddau cysylltiedig, cafwyd cyfnod cymharol fyr o dawelwch ar hyd yr Afon Gyffin nes i'r brodyr Peter a Humphrey Lewis sefydlu iard goed yn Heol Benarth yn ystod y 1870au. Yr oedd eu tad, Watkin Lewis, wedi sefydlu ei hun fel masnachwr coed yn gyntaf yn Llanrwst ac fe'i ddilynwyd gan ei feibion. Mae cyfrifiad 1871 yn dangos fod y ddau frawd, Peter 32 a Humphrey 29, yn sengl ac yn byw yn 162 Stryd Dinbych, Llanrwst. Erbyn 1878, roeddent wedi sefydlu cwmni P & H

Lewis Masnachwyr Coed yn Ffordd Benarth, Conwy. Cawsant ddirwy o £2 ym mis Tachwedd 1878 am achosi rhwystr o goed ar Ffordd Benarth (ac nid am y tro cyntaf!) . Roedd y busnes hwn yn cael ei redeg gan Humphrey tra roedd Peter yn rheoli materion yn Llanrwst. Roedd ganddynt hefyd iard goed yng nghei Deganwy ac iard gychod bach ym mhen gogleddol cei tref Conwy, lle mae'r traeth ychydig y tu allan i wal y dref.



Humphrey Lewis

Erbyn cyfrifiad 1881, roedd Humphrey Lewis yn byw gyda dwy o'i chwiorydd yn 65 Stryd y Castell, Conwy. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno priododd Adelaide Starkey ac yn fuan wedyn adeiladodd *Muriau* (y Ganolfan Groeso bellach) ar Stryd Rose Hill fel cartref i'w deulu. Erbyn 1891 roedd gan Humphrey ac Adelaide bedwar o blant, merch Phoebe a thri mab: Arthur (a fu farw ym 1917 yn gwasanaethu gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Arras), Humphrey iau a Wilfred. Daeth Humphrey, y tad, yn biler o'r gymuned a bu'n Maer Conwy. Bu farw yn 56 oed. Parhaodd Adelaide i fyw ym *Muriau* ac erbyn 1911 yr oedd y busnes yn cael ei redeg gan feibion Humphrey. Ar ryw adeg, fodd bynnag, gwerthwyd yr iard gychod ger wal y dref i Albert Wood, Maer arall Conwy. Tua 1920 gwerthodd Wood yr iard gychod i George a John Crossfield, sef teulu o fasnachwyr coed sefydledig ac adeiladwyr cychod o Arnside, Cumbria. Roedd gan y Crossfields iard goed yn Neganwy hefyd ac efallai iddynt brynu busnes y teulu Lewis, gan gynnwys yr iard yn Ffordd Benarth.




*Muriau*, the Lewis family home



Present-day view of the retaining wall built by Conwy corporation *c.* 1910

Yn dilyn marwolaeth Humphrey Lewis yn 1898, a thra yr oedd ei feibion yn rhedeg y busnes yn Heol Benarth, fe brynwyd y safle gan Gyngor Tref Conwy. Tua 1910 fe adeiladwyd wal

gynnal, gan y Cyngor Tref, yn ymestyn o Bont Pensarn hyd at y bwthyn ym mhen deheuol yr iard goed. Mae llawer o'r wal hon yn dal yn ei lle ac yn cael ei chynnal fel nodwedd bwysig o ddiddordeb hanesyddol lleol.



Airel view of Conwy from the south in 1932

Erbyn canol y 1930au roedd iard goed Benarth wedi cau ond roedd yr iard gychod ym mhen gogleddol cei'r dref yn dal i gael ei ddefnyddio. Datblygwyd y tir gwag y tu ôl i'r wal gynnal, sef yr hen iard goed, fel Parc Pensarn a lawnt fowlio. Cyn tranc yr iard goed, fodd bynnag, sefydlwyd menter ddiwydiannol ysgafn newydd ymhellach ar hyd Ffordd Benarth. Ym 1913 comisiynwyd syrfëwr y dref, Freeman Delamotte (chwaraewr pêl-droed i Southampton ar un adeg), i ddyfeisio ac adeiladu modd o buro cregyn gleision. Er nad oedd y tanciau puro a adeiladwyd gan Delamotte yn gweithio fel y rhagwelwyd, roeddent yn bodloni gofynion system a ddyfeisiwyd gan Dr Robert W Dodgson a'r gwaith dilynol a oedd yn sail i'r amaethu gwyddonol ac ymchwil i bysgod cregyn hyd at ddiwedd y mileniwm. Parc Busnes Glan yr Afon yw’r safle erbyn hyn.



Ychwanegwyd at sgwrs hynod ddiddorol Stephen ymhellach gan sylwadau gan y gynulleidfa, yn enwedig ein hysgrifennydd, Vicky Macdonald, yr oedd ei thad yn berchen ar yr hen efail a'r iard gychod yn ddiweddarach. Roedd y ffaith bod Vicky yn gwybod bod yr hen efail yn cael ei adnabod yn lleol fel Telford's Cottage yn cadarnhau rhagdybiaeth Stephen.

Un o amcanion gwreiddiol Grŵp Hanes Deganwy oedd i aelodau wneud ymchwil i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'n cymdogaeth leol, ac fe gyflawnwyd hyn yn wirioneddol heno.